

Sut mae sefydlu a rhedeg Siop Rhannu Cymunedol

Pecyn adnoddau

Gan Manage Money Wales

Cynnwys

Cyflwyniad

Beth yw Siop Rhannu Cymunedol meddai chi?

Buddion

Cynllunio

Dewis eich lleoliad

Hygyrchedd

Materion cyfreithiol

Iechyd a Diogelwch

Covid 19

Nawdd

Costau annisgwyl

Awgrymiadau a Syniadau

Gweithgareddau ategol

Cynaliadwyedd

Marchnata

Gwirfoddolwyr

Rhoddion

Gosod eitemau allan

Y Digwyddiad

Wedi'r digwyddiad

tudalen 3

tudalen 3

tudalen 4

tudalen 4

tudalen 4

tudalen 4

tudalen 5

tudalen 5

tudalen 5

tudalen 6

tudalen 6

tudalen 6

tudalen 6

tudalen 7

tudalen 7

tudalen 7

tudalen 7

tudalen 8

tudalen 8

tudalen 8

Cyflwyniad

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i sefydlu a rhedeg Siop Rhannu Cymunedol.

Beth yw Siop Rhannu Cymunedol meddai chi?



Mae Siop Rhannu Cymunedol yn gweithio ar sail y cysyniad o 'Rhowch beth y medrwch, cymrwch beth chi angen'.

Mae'n dibynnu ar bobl yn rhoi beth nad ydyn nhw ei angen, ac eraill yn cymryd beth mae nhw ei angen.

Gall gael ei redeg gan unrhywun, o deulu a ffrindiau yn rhannu eu heitemau diangen, grŵp uwchgylchu lleol, neu weithwyr cwmni.

Gall eitemau gynnwys dillad, esgidiau, offer chwaraeon, dodrefn, planhigion, llyfrau, gemau, teganau, gwisgoedd ysgol, tŵls, bwyd a llawer mwy!

Byddai hefyd yn bosib i chi ddefnyddio themâu fel eitemau Nadolig cyn y Nadolig.

Mae Siop Rhannu Cymunedol yn ffordd wych o gryfhau'r gymuned leol gan ei bod yn ein hannog i rannu a helpu ein gilydd.

Sefydlu Siop Rhannu Cymunedol: Pethau i'w cysidro



Buddion

- Arbed arian i bobl.
- Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.
- Darparu lle ar gyfer y gymuned leol i gwrdd a chymdeithasu.
- Gwirfoddolwyr yn meithrin sgiliau.

Dewis eich lleoliad

- Bydd angen gofod digonol ar gyfer eich anghenion.
- Efallai y bydd angen gofod arnoch i storio eich eitemau, a mynediad atynt er mwyn eu gosod allan a'u cadw.
- Efallai y bydd angen byrddau i arddangos yr eitemau, rheiliau dillad a chambrenni neu focsys i ddal pethau.



Cynllunio

- Methiant i baratoi, paratoi am fethiant.
- Y mwyaf yr ydych chi'n ei baratoi, y lleiaf o bethau a all fynd o'i le yn y digwyddiad.
- Cynlluniwch yn drylwyr y camau anghenrheidiol a faint o amser fydd pob cam ei angen.

Hygyrchedd

- Oes gan eich lleoliad doiledau? Ac esgynfa? Digon o le i gadeiriau olwyn neu bramiau allu dod i mewn? Cegin os oes angen?
- A oes maes parcio digonol neu gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da?




Materion cyfreithiol

- Gwiriwch fod gan eich grŵp neu'r lleoliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac y gall gynnal digwyddiad Rhannu Cymunedol.
- GDPR a diogelu data. Casglwch y wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn unig gyda chydysyniad y mynychwr.
- Cyhoeddusrwydd. Os yr ydych yn tynnu lluniau neu yn ffilmio'r digwyddiad, sicrhewch fod gennych ganiatâd ysgrifenedig.



Covid 19

- Os ydych yn cynnal y digwyddiad yn ystod cyfnod Covid 19 sicrhewch fod hawl gennych i redeg y digwyddiad drwy wirio gwefan y llywodraeth a'r hwb gymunedol sydd yn ei gynnal.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi posteri i fyny gyda gwybodaeth fel cadw pellter cymdeithasol a gwisgo mygydau wyneb.
- Agorwch ddrysau ar gyfer awyru a darparwch gyfarpar diogelu personol yn rhad ac am ddim.
- Sicrhewch eich bod yn cadw at y nifer o bobl a ganiateir yn y gofod ar yr un pryd.



Iechyd a Diogelwch

- Sicrhewch eich bod wedi gwneud asesiad risg a bod gennych weithdrefnau ar waith. Mae templedi asesiadau risg i'w cael ar-lein, gofynnwch i'r lleoliad os oes ganddyn nhw un y gallwch ei ddefnyddio neu mi allwch greu un eich hun drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych o'r lleoliad y byddwch yn ei ddefnyddio.
- Sicrhewch fod gennych Swyddog Cymorth Cyntaf a Chit Cymorth Cyntaf yn eich digwyddiad neu yn y ganolfan gymunedol. Mae cyrsiau Cymorth Cyntaf yn cael eu rhedeg yn rhad ac am ddim gan y cyngor lleol yn aml.
- Defnyddiwch synnwyr cyffredin gan gerdded drwy'r drefn sydd gennych i asesu pa ddamweiniau a all ddigwydd a lleihau'r risgiau hynny.
- Nodwch lle mae'r allanfeydd tân a'r mannau ymgynnull a gadewch i bobl wybod pan fyddent yn cyrraedd.



Cyllido

- Rhai awgrymiadau ar gyfer lleihau eich costau yw;
- Os ydych yn grŵp a gyfansoddwyd, efallai fod posib i chi gael mynediad at grantiau fel grant 'Arian i Bawb Cymru y Loteri Genedlaethol'.
- Weithiau bydd gan Gynghorau lleol neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol gronfeydd bach o gyllid i redeg digwyddiadau cymunedol.
- Gofynnwch am roddion i helpu cynnal y digwyddiad neu i dalu am baneidiau.
- Codwch dâl mynediad.



Costau annisgwyl

- Mae'n bwysig eich bod yn cadw golwg ar gostau fel tanwydd os ydych yn casglu y rhoddion, cyfarpar diogelu personol (PPE), reiliau dillad a chambrenni, hysbysebu, llogi lleoliad, bocsys storio i gadw stoc, treuliau gwirfoddolwyr megis cynhaliaeth a theithio ac yn y blaen.
- Wrth gynllunio, ysgrifennwch yr holl broses i lawr a'r holl gostau a allwch wynebu a gweithiwch allan sut y gallwch dalu amdanynt.



Awgrymiadau a Syniadau

- Gofynnwch i fusnesau lleol noddi'r digwyddiad e.e. talu am faneri gydag adran i arddangos eu logo neu eu bod yn darparu cynnyrch ar gyfer y digwyddiad. Mae nhw'n derbyn cyhoeddusrwydd da a chithau'n cael pethau am ddim.



Gweithgareddau ategol

- Gallwch gael ardal gyda theganau a gofalwr/wraig plant fel y gall rhieni gael amser i fynd drwy'r eitemau heb ymyrraeth.
- Darparu te, coffi a bisgedi fel bod pobl yn medru ymlacio a sgwrsio.
- Gwahodd grwpiau lleol, clybiau, elusennau a chyflogwyr i fod yn bresennol a gallu cynnig eu gwasanaethau, a allai fod o fudd i'r mynychwyr.



Cynaliadwyedd

- Mae Siop Rhannu Cymunedol yn ffordd wych o leihau ein hól troed carbon.
- Ffordd effeithiol dda o fesur yr effaith rydych yn ei gael yw pwyso pob eitem sydd wedi ei roi yr ydych chi'n ei arbed rhag mynd i safle tirlenwi.



Marchnata

- Hysbysebwnch mewn da bryd er mwyn cyrraedd mwy o bobl.
- Defnyddiwch ddulliau hysbysu am ddim yn gyntaf cyn gwario, fel y cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau lleol a gorsafoedd radio.
- Targedwch eich cynulleidfa. Os oes gennych themâu penodol fel gwisgoedd ysgol, targedwch rieni ac ysgolion.


Gwirfoddolwyr

- Y mwyaf yw'r digwyddiad, y mwyaf o help y byddwch chi ei angen.
- Gallwch ofyn i'r gwirfoddolwyr gasglu unrhyw roddion, didoli rhoddion, gwneud te a choffi, cynnal y digwyddiad, marchnata'r digwyddiad. Mae'r rhestr yn faith.
- Os oes gennych nawdd, peidiwch ag anghofio talu am unrhyw gynhaliaeth neu gostau teithio.
- Os nad, ceisiwch feddwl am ffordd arall y medrwn eu helpu e.e. ysgrifennwch lythyr diolch, cynnig hyfforddiant mewn sgiliau fel rheoli prosiectau iddynt, cynnig y dewis cyntaf ar yr eitemau iddynt.



Rhoddion

- Gallwch ddewis casglu rhoddion, eu dosbarthu mewn mannau penodol neu yn eich lleoliad chi, unrhyw amser neu ar amseroedd penodol.
- Yr hawsaf a'r lleiaf o waith fydd hyn i'r rhoddwyr, y mwyaf o roddion rydych chi'n debygol o'i gael, ond golyga hyn fwy o ymdrech, arian neu amser ar eich rhan chi. Pwyswch a mesur faint y gallwch chi ei wneud.
- Dewiswch beth ydych chi angen ei gadw a beth nad ydych chi ei angen. Gall hyn fod oherwydd ansawdd y rhoddion neu eitemau na allwch eu harddangos/ dderbyn fel eitemau trydanol os na allwch eu profi gyda 'Phrawf Dyfeisiau Cludadwy'. Os medrwn fynd drwy'r eitemau wrth eu derbyn, yna gallwch wrthod eitemau nad ydych eu hangen. Neu ar y llaw arall, eu pasio ymlaen i siop elusen a fyddai efallai yn medru eu cymryd neu grŵp a fyddai'n gallu gwneud defnydd ohonynt fel grŵp gwnïo neu grŵp uwchgylchu.



Gosod eitemau allan

- Mae'r ffordd rydych yn gosod eich eitemau allan yn medru cael effaith fawr ar y nifer o bethau a gymerir.
- Yr hawsaf yw hi i bobl weld a mynd drwy'r eitemau, yna y mwyaf yw'r gobaith y cânt eu cymryd.
- Defnyddiwch reilau dillad a byrddau os yn bosib, i hwyluso mynediad.
- Gallwch nodi y gall pobl gymryd nifer benodol o eitemau neu beidio cael unrhyw gyfyngiadau o gwbl.



Y digwyddiad

- Sicrhewch eich bod yn cael digon o orffwys y noson gynt.
- Cyrhaeddwch yn gynnar i agor a chael un gwiriad olaf.
- Cymerwch gofrestr er mwyn cadw cofnod ac er mwyn iechyd a diogelwch.
- Gwenwch a rhowch groeso i bawb.
- Gwnewch y digwyddiad yn brofiad y maent yn ei fwynhau ac y byddent eisiau dod yn ôl iddo. Geirda yw'r ffordd orau o farchnata.
- Cael y gwirfoddolwyr a chi eich hun i helpu os oes angen.
- Diolch i'r mynychwyr am ddod.
- Gofyn am adborth neu argymhellion er mwyn hybu eich proffil.

Ar ôl y digwyddiad

- Trefnwch yr eitemau sydd ar ôl fel nad oes angen ei wneud eto, a'u pacio ar gyfer y digwyddiad nesaf.
- Glanhewch a thacluswch y gofod a'i adael yn well nag y darganfyddoch chi ef.
- Diolchwch a gwobrwywch (os yn bosib) eich gwirfoddolwyr.
- Rhowch yr eitemau i gadw mewn storfa.
- Cymrwch hoe! Fe gawsoch hwyl dda arni!
- Yr amlaf y byddwch chi'n eu cynnal, yr hawsaf y bydd, a'r mwyaf y daw pobl i wybod amdanynt, y mwy o roddion y cewch ac felly mwy o fynychwyr yn dod i'ch digwyddiad.
- Cofiwch, derbyniwch eitemau o ansawdd yn unig, mae'ch enw da chi ynghlwm â hyn. Does neb eisiau sothach, hyd yn oed os yw am ddim!



Daw ein profiad o redeg digwyddiadau Rhannu Cymunedol dros dro o gwmpas De Cymru, Y Deyrnas Unedig.

**Y Ffatri**

Stryd Jenkin

Porth

Rhondda Cynon Taf

CF39 9PP

info@managemoneywales.co.uk

07514 625536

www.managemoneywales.co.uk